**Gofynnwn ichi ddefnyddio'r templed hwn i ddrafftio'ch ymatebion i'w cyflwyno drwy'r ffurflen ymgynghori ar-lein.**

**Tystiolaeth gan: Cliciwch neu pwyswch yma i nodi eich enw a/neu eich sefydliad.**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol** | **Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb?** | **Cymraeg for all?**

Nid oes yn rhaid ichi ateb pob cwestiwn, dim ond y rhai yr hoffech fynegi barn arnynt neu rannu gwybodaeth yn eu cylch.

## 1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Rydym ar fin cyhoeddi ein cynllun strategol newydd ar gyfer 2025-30 ac mae cwestiynau'r ymgynghoriad hwn yn adlewyrchu'r math o ystyriaethau sydd wedi bod yn ganolog i'r broses o lunio'r cynllun strategol. Fel rhan o ddatblygu'r cynllun fe wnaethom gynnal prosiect ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc er mwyn deall arferion defnydd iaith a'r math o heriau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg. Fe ymatebodd 1600 o blant a phobl ifanc ar hyd a lled Cymru i'n holiadur, a cynhaliwyd 6 grŵp ffocws dilynol gyda phlant a phobl ifanc. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ar sail y gwaith ymchwil hwn yn ystod Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai, ond gallwn gyfeirio at rai canfyddiadau allweddol wrth ymateb i gwestiynau'r ymgynghoriad hwn.

Byddem yn dadlau bod nifer o resymau cymhleth a chysylltiedig dros ddiffyg defnydd eang o'r Gymraeg ymysg unigolion sy'n gallu'r Gymraeg (yn enwedig mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr). Dyma rai o'r rhesymau mwyaf amlwg:

Saesneg fel iaith ddiofyn: i nifer o siaradwyr Cymraeg, Saesneg yw'r iaith naturiol sy'n cael ei defnyddio ar yr aelwyd, gyda ffrindiau ac yn y gymdeithas o ddydd i ddydd. Mae arferion ieithyddol unigolion yn treiddio yn ddwfn ac yn rhan o seicoleg yr unigolyn, ac mae'n rhywbeth anodd iawn i'w newid. Yn syml iawn, yr hyn sydd yn teimlo fwyaf naturiol a hawdd i nifer o unigolion sy'n gallu'r Gymraeg yw siarad Saesneg.

Y Gymraeg fel iaith addysg: yn gysylltiedig â'r pwynt uchod, mewn nifer o ardaloedd lle mae dwysedd is o siaradwyr Cymraeg, mae'r Gymraeg yn tueddu i gael ei hystyried fel iaith addysg. Er bod y system addysg Gymraeg yn llwyddo i greu siaradwyr newydd mae ystadegau'r cyfrifiad yn dangos bod nifer o'r unigolion hyn yn colli gafael ar yr iaith ar ôl gadael y gyfundrefn addysg. Mae'n debyg mai rhan o'r rheswm am hyn yw nad yw'r unigolion hyn yn defnyddio'r Gymraeg yn gyson y tu allan i fyd addysg. Mae ein hymchwil diweddar ni yn ategu'r dystiolaeth bod defnydd y Gymraeg y tu hwnt i giatiau'r ysgol yn aml yn gyfyngedig iawn. Os yw'r unigolion hyn yn colli gafael ar y Gymraeg oherwydd diffyg defnydd a hyder, yna mae hyn yn ei dro yn lleihau'r gronfa o siaradwyr mewn ardal a all gynnal defnydd iaith yn y gymuned.

Perthynas dwysedd siaradwyr â defnydd iaith: mewn ardal lle nad yw trwch y boblogaeth yn siarad Cymraeg, yna mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwy cyfyngedig. Hynny yw, nid yw'r mas critigol o siaradwyr yn bodoli ar gyfer sicrhau cyfleoedd hawdd a naturiol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Mewn ardaloedd sydd â dwysedd is o siaradwyr Cymraeg mae mwy o bwyslais felly ar greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, er enghraifft yn yr ysgol, wrth wneud gweithgareddau chwaraeon a hamdden, neu wrth weithio. Mae hefyd yn wir wrth gwrs bod llai o unigolion ar gael i lenwi swyddi neu gyfleoedd gwirfoddoli sy'n darparu gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn cynnig cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Credwn felly bod cynyddu defnydd yn debygol o fod yn haws ac yn fwy llwyddiannus os oes dwysedd uwch o siaradwyr Cymraeg yn y lle cyntaf.

Y Gymraeg yn bodoli ochr yn ochr ag iaith ddominyddol: fel sydd yn wir ym mhob rhan o Gymru, mae'r Gymraeg yn bodoli ochr yn ochr ag iaith sy'n dominyddu diwylliant torfol, y cyfryngau ac adloniant - sy'n rhwym o gael dylanwad sylweddol ar ddefnydd iaith.

## 2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Mae ein hymchwil diweddar yn ategu tystiolaeth arolygon eraill (er enghraifft, yr Arolwg Defnydd Iaith) sy'n dangos bod perthynas rhwng rhugldеr yn y Gymraeg a defnyddio'r Gymraeg. Mae siaradwyr Cymraeg rhugl yn llawer mwy tebygol o ddefnyddio'r iaith yn gyson yn eu bywydau. Gwyddom mai addysg cyfrwng Cymraeg sydd fwyaf tebygol o arwain at greu siaradwyr Cymraeg rhugl a hyderus, ac felly mae cynyddu'r niferoedd sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn debygol o gefnogi ymdrechion i gynyddu'r defnydd o'r iaith maes o law.

Un o'r prif heriau o safbwynt y Gymraeg yw cynyddu defnydd siaradwyr tu hwnt i giatiau'r ysgol. Yr her amlwg felly yw cynnal sgiliau Cymraeg ein pobl ifanc a sicrhau eu bod yn parhau i ddefnyddio'r iaith wrth fynd ymlaen yn eu haddysg neu hyfforddiant, ac i fyd gwaith.

Yn y cyd-destun hwn mae cynyddu defnydd o'r Gymraeg mewn gweithleoedd yn un o flaenoriaethau ein cynllun strategol ar gyfer 2025-30 oherwydd credwn ei fod yn faes sy'n dylanwadu'n arwyddocaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae angen adeiladu ar yr hyn mae'r system addysg yn ei gyflawni drwy sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson wrth weithio. Drwy gynyddu defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r Gymraeg yn y gweithle mae potensial i ddylanwadu ar ganfyddiad pobl o bwysigrwydd yr iaith, ar gyfleoedd i fagu hyder ieithyddol, ac ar ddefnydd ehangach o'r Gymraeg yn y gymuned. Wrth gwrs, mae safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar sefydliadau'r sector cyhoeddus i hybu defnydd mewnol o'r Gymraeg, ond mae gweithleoedd o bob sector yn cynnig cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.

Y tu hwnt i'r sector addysg a'r gweithle, mae ystod eang o wahanol ofodau a sectorau all gyfrannu at annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg. Mae rhai o'r enghreifftiau mwyaf amlwg yn cynnwys:

Cynyddu gwasanaethau Cymraeg: mae cyfundrefn safonau'r Gymraeg yn golygu bod mwy o gyfleoedd gan bobl i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau. Yn ogystal â pharhau i ehangu a gwella ansawdd gwasanaethau Cymraeg, un o flaenoriaethau ein cynllun strategol ar gyfer 2025-30 yw annog mwy o ddefnydd o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael.

Chwaraeon a hamdden: mae ein hymchwil ni â phlant a phobl ifanc yn amlygu'n glir bod gweithgareddau chwaraeon a hamdden yn faes strategol pwysig. Roedd dros hanner y rhai ymatebodd i'n holiadur yn nodi eu bod yn mynychu gweithgareddau hamdden/chwaraeon yn rheolaidd, cyfran llawer uwch nag unrhyw fath o weithgaredd arall tu allan i'r ysgol. Roedd y defnydd o'r Gymraeg hefyd ychydig yn uwch mewn gweithgareddau hamdden/chwaraeon o gymharu â gweithgareddau eraill.

Digwyddiadau diwylliannol: y tu hwnt i chwaraeon, credwn fod digwyddiadau diwylliannol, er enghraifft eisteddfodau, gwyliau a sioeau, dramâu, gigs, a chyngherddau yn feysydd amlwg y dylid eu blaenoriaethu o ran cynyddu defnydd iaith.

Darlledu, technoleg, a chyfryngau cymdeithasol: o ystyried pwysigrwydd ac amlygrwydd technoleg a chyfryngau cymdeithasol yn ein bywydau, mae hwn yn faes arall arwyddocaol. Mae ein hymchwil gyda phlant a phobl ifanc yn cynnwys llawer o wybodaeth am arferion plant a phobl ifanc o ran gwylio teledu, gwrando ar gerddoriaeth a phodlediadau, a'r defnydd o dechnoleg a chyfryngau cymdeithasol drwy gyfrwng y Gymraeg. Ar y cyfan mae'r canlyniadau yn awgrymu bod y defnydd o'r Gymraeg yn weddol gyfyngedig ar hyn o bryd.

Modelau rôl: er efallai yn faes anodd o safbwynt cynllunio ieithyddol, mae'n bwysig cofio dylanwad rhai unigolion a gwahanol sefydliadau o ran cyfleu negeseuon ynghylch defnydd o'r Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys unigolion dylanwadol mewn grwpiau cymdeithasol ac arweinwyr cymunedol ar lefel leol yn ogystal â modelau rôl mwy adnabyddus. Mae amlygrwydd yr iaith Gymraeg o fewn pêl-droed Cymru yn ystod ymgyrchoedd diweddar yn un enghraifft amlwg a pwerus o hyn.

## 3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o'r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith yn gyfyngedig?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Mae yna ystod hynod eang o wahanol sefydliadau a mentrau sydd yn annog defnydd o'r Gymraeg ar hyd a lled Cymru. Bydd ein hymateb isod yn canolbwyntio ar waith y Comisiynydd yn benodol. Mae holl waith y Comisiynydd yn ymwneud â chynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ond isod ceir rhai enghreifftiau mwy penodol.

Strategaethau hybu 5 mlynedd

Mae safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fabwysiadau a gweithredu strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut maen nhw'n bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eu hardaloedd. Mae ein cynllun strategol ar gyfer 2025-30 yn datgan ein bwriad i gydweithio ag awdurdodau lleol ac awdurdodau parciau cenedlaethol i baratoi a gwerthuso strategaethau hybu 5-mlynedd. Mae gweithredu'r strategaethau hyn gan amlaf yn cynnwys dod â sawl asiantaeth/mudiad ynghyd yn lleol, fel y mentrau iaith a'r mudiad meithrin. Credwn fod gan y strategaethau hyn botensial i wneud gwahaniaeth sylweddol i'r ffordd mae cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu cynllunio a'u hyrwyddo.

## Ymgyrch Defnyddia dy Gymraeg

Mae ein hymgyrch blynyddol, *Defnyddia dy Gymraeg*, yn annog pawb i ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddynt, ac i fusnesau, elusennau a sefydliadau o bob math hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael i'r cyhoedd. Rydyn ni'n awyddus i annog pobl o bob oed ac o bob cefndir ar draws Cymru i ddefnyddio eu Cymraeg bob dydd - gartref, yn y gwaith, yn y siop, wrth gymdeithasu, dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar-lein. Mae'r ymgyrch wedi helpu i wneud y canlynol:

- Cynyddu ymwybyddiaeth: Mae'r ymgyrch wedi helpu i gynyddu ymwybyddiaeth am bwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg, yn enwedig mewn sectorau allweddol fel iechyd a gofal.

- Hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg: Mae sefydliadau o bob math wedi cael cyfle i hyrwyddo eu gwasanaethau Cymraeg, gan wneud y Gymraeg yn fwy hygyrch i'r cyhoedd.

- Annog defnydd dyddiol: Mae'r ymgyrch wedi annog siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd, boed hynny gartref, yn y gwaith, yn y siop, wrth gymdeithasu, dros y ffôn, wyneb yn wyneb ac ar-lein.

## Bathodynnau Iaith Gwaith

Mae'n amlwg wrth gwrs fod angen i siaradwr Cymraeg wybod bod rhywun arall yn siarad Cymraeg er mwyn siarad y Gymraeg gyda hwy ac mae swigen oren bathodyn Iaith Gwaith yn galluogi hynny. Mae wedi cael effaith gadarnhaol ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn amryw o leoliadau ers ei sefydlu yn 2005. Dyma rhai o'r prif effeithiau:

- Cynyddu gwelededd: Mae'r bathodyn swigen oren yn dangos yn glir bod person yn siarad Cymraeg, gan annog eraill i ddefnyddio'r iaith wrth gyfathrebu.
- Hybu hyder: Mae'r bathodyn wedi helpu siaradwyr Cymraeg i deimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cyhoeddus, megis yn y siop, ysbyty, neu ganolfan hamdden.
- Gwella gwasanaethau: Mae'r bathodyn wedi galluogi sefydliadau i ddarparu gwasanaethau Cymraeg yn fwy effeithiol, gan sicrhau bod y Gymraeg yn fwy hygyrch ac yn cael ei defnyddio'n eang.

Mae'r bathodyn Iaith Gwaith yn parhau i fod yn arf pwysig rydym ni'n defnyddio i hyrwyddo'r Gymraeg ac annog pobl i ddefnyddio'r iaith yn hyderus ac yn gyson.

Y Cynnig Cymraeg

Y Cynnig Cymraeg yw cydnabyddiaeth gan y Comisiynydd i sefydliadau sydd wedi creu cynllun datblygu'r Gymraeg. Mae'n gyfle i sefydliadau ddangos i'w defnyddwyr eu bod yn ymfalchïo yn yr iaith Gymraeg ac yn barod i'w defnyddio.

Er mwyn derbyn cydnabyddiaeth y Cynnig Cymraeg, mae disgwyl i sefydliadau weithio gyda swyddogion y Comisiynydd i ffurfio Cynllun Datblygu'r Gymraeg. Bwriad y Cynllun yw i helpu sefydliadau i sicrhau eu bod yn datblygu eu gwasanaethau Cymraeg dros amser. Er nad yw'r Cynnig Cymraeg o reidrwydd yn targedu ardaloedd lle mae defnydd y Gymraeg yn gyfyngedig, mae'r Cynnig Cymraeg yn aml yn targedu elusennau, busnesau a sectorau lle mae defnydd y Gymraeg yn gyfyngedig. Mae hefyd yn targedu gofodau sydd yn amlwg iawn i fywydau pawb yng Nghymru, er enghraifft, archfarchnadoedd a busnesau mawr adnabyddus.

## 4. Sut y gallai technoleg ac offer digidol helpu i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n defnyddio'r iaith yn anaml neu sydd â diffyg hyder?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Fel mae ein hymateb i gwestiwn 2 yn ei nodi, credwn fod technoleg a'r cyfryngau yn feysydd amlwg sydd â photensial i ddylanwadu ar ddefnydd iaith. Yn amlwg

mae heriau yn bodoli yn y meysydd hyn o ystyried dylanwad technoleg a chyfryngau cyfrwng Saesneg, ond mae hefyd gyfleoedd. Mae hyn yn arbennig o wir o safbwynt cynnig cyfleoedd i bobl sydd ddim yn defnyddio'r Gymraeg yn aml i glywed a defnyddio'r Gymraeg yn gynyddol wrth ddefnyddio technoleg, wrth gyfathrebu ar lein trwy gemau cyfrifiadurol, ar gyfryngau cymdeithasol, ac wrth wylio a gwrando ar raglenni a cherddoriaeth.

Prif amcan gwaith y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Un o'r ffyrdd hynny byddwn yn gwneud hynny yw drwy gydweithio â sefydliadau cyhoeddus i gynyddu eu gwasanaethau digidol Cymraeg. Trwy'r gwaith yma rydym yn gweld bod deallusrwydd artiffisial (DA) yn cael dylanwad cynyddol ar sut mae sefydliadau yn darparu gwahanol wasanaethau ac ar ddulliau o weithio. Er enghraifft, mae eisoes yn cael ei ddefnyddio i greu cynnwys, i hwyluso cyfieithu, i ddarparu gwasanaethau awtomatig ac i gynyddu effeithlonrwydd gweithwyr mewn ystod o ffyrdd. Os bydd y Gymraeg yn ganolog i ddatblygiadau DA o'r cychwyn cyntaf, yna mae potensial mawr i hynny hwyluso'n sylweddol ein gwaith ni a sefydliadau cyhoeddus Cymru o gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r gwrthwyneb yn wir hefyd, wrth gwrs.

Fe wnaethom ymateb yn ddiweddar i gais Llywodraeth Cymru am wybodaeth ynghylch pa fath o dechnoleg fyddai'n helpu cynyddu defnydd o'r Gymraeg. Roedd ein hymateb yn seiliedig ar yr hyn ddywedodd sefydliadau Cymru wrthym mewn cyfres o seminarau yn gynharach eleni oedd yn canolbwyntio ar lwyddiannau, heriau ac arferion da ym maes technoleg a'r Gymraeg. Dyma flas o'r hyn ddywedodd y sefydliadau:

- Mae pryder gwirioneddol fod y maes DA yn datblygu mor gyflym nad oes modd rhagweld beth fydd yn dod nesaf. Mae hefyd pryder y bydd y Gymraeg yn cael ei gadael ar ôl ac yn cael ei gweld yn amherthnasol os nad yw'n cael ei chynnwys yn y datblygiadau hyn.
- Mynegwyd y pryderon mwyaf mewn perthynas â'r maes addysg. Mae DA yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol yn y sector hwn. Rhaid sicrhau bod y ddarpariaeth yn Gymraeg yn cyd-fynd â'r ddarpariaeth yn Saesneg rhag tanseilio gwerth y Gymraeg fel cyfrwng addysg.
- Amlygwyd heriau wrth geisio cynllunio a dylunio gwasanaethau sydd yn defnyddio DA gan fod diffyg data am arferion ac ymddygiad defnyddwyr gwasanaethau Cymraeg.
- Nid yw'r angen i gydymffurfio â dyletswyddau iaith yn gorfod golygu nad yw'n bosibl cynnig y gwasanaethau drwy gyfrwng technoleg a DA. Mae DA yn

cynnig cyfleoedd newydd i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ac i gefnogi sefydliadau wrth iddynt ddarparu gwasanaethau.

Mae'r rhestr uchod yn awgrymu bod llawer o rwystrau sydd angen eu goresgyn er mwyn galluogi sefydliadau i wireddu hynny. Byddwn yn cydweithio â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddeall yn well goblygiadau technoleg ar gyfer y modd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu. Fel rhan o'r ymdrech yma byddwn yn ystyried sut y gallwn ni gefnogi sefydliadau wrth iddynt dreialu ffyrdd newydd o weithio cyn eu defnyddio yn ehangach. Bydd y gwaith yma'n darparu sail gadarn wrth i ni ddatblygu safbwynt polisi ar reoleiddio DA mewn perthynas â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn i ddod.

Yn ogystal â rheoleiddio dyletswyddau iaith y sector gyhoeddus yng Nghymru, rydym yn gweithio gyda'r sector breifat a thrydydd sector er mwyn hybu cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg. Drwy'r gwaith hwnnw rydym yn gallu gweld bod DA yn cynnig cyfleoedd i wella gwasanaethau Cymraeg i'r cyhoedd. Enghraifft benodol o hyn fyddai gallu banciau a chymdeithasau tai i ddefnyddio DA i ddatblygu apiau fyddai yn gallu cynnig gwasanaethau Cymraeg. Byddai datblygiadau o'r math yma yn bositif, ac i'w croesawu, ond mae'n rhaid bod yn wyliadwrus o'r risgiau sy'n bodoli o gynnig gwasanaeth israddol yn y Gymraeg. Mae'n hollbwysig fod DA yn cael ei ddefnyddio'n gyfrifol i gefnogi sgiliau iaith y gweithlu, nid eu disodli.

I grynhoi, rydym yn gweld datblygiadau technoleg ac offer digidol yn gyfle mawr i ehangu a gwella gwasanaethau Cymraeg ym mhob sector. Rhaid sicrhau bod technoleg ar gyfer y Gymraeg yn symud ar yr un raddfa â'r Saesneg er mwyn sicrhau na fydd y Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth ddarparu gwasanaethau.

## 5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Mae digwyddiadau diwylliannol mawr fel yr Eisteddfodau cenedlaethol a gwyliau Tafwyl a Gŵyl Tawe yn ffyrdd effeithiol iawn o gynnig gofodau i bobl ddefnyddio eu Cymraeg. Trwy ddathlu'r Gymraeg a'i diwylliant mae'r digwyddiadau hyn yn hysbyseb positif i'r Gymraeg ac yn gwneud gwaith arbennig o hyrwyddo'r iaith. Ein argraffiadau ni o'r digwyddiadau yma yw eu bod yn gynhwysol ac yn annog

pobl i fynychu a defnyddio'r Gymraeg, pa bynnag faint o'r iaith sydd ganddyn nhw. Roedd hyn ar ddangos mewn digwyddiad diweddar oedd yn gwobrwyo busnesau yn ardal Rhondda Cynon Taf am eu cyfraniad at hybu'r Gymraeg ar ôl Eisteddfod Genedlaethol 2024.

Rydym yn gefnogol iawn o'r neges gynhwysol hon, gan ei bod yn debygol o annog pobl y tu hwnt i'r rhai sydd yn defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd yn barod. Er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg mae'n rhaid denu siaradwyr newydd a siaradwyr sydd wedi stopio defnyddio'r Gymraeg. Gallai ymweld â digwyddiadau o'r fath fod yr ysgogiad sydd ei angen ar bobl i ail gydio yn yr iaith, neu i fynd ati i'w dysgu. Er enghraifft mewn adroddiad i gabinet Cyngor Rhondda Cynnon Taf ar waddol ac effaith Eisteddfod Genedlaethol 2024 adroddwyd bod cynnydd wedi bod yn y nifer o staff sy'n dewis mynychu cyrsiau Cymraeg.

Gall y digwyddiadau fod yn ffordd effeithiol o gynnwys rhieni di-Gymraeg sy'n dewis danfon eu plant i addysg Gymraeg. Mae Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, yn ogystal â gwyliau fel Tafwyl, yn effeithiol iawn yn cynnwys ysgolion lleol yn arlwy'r digwyddiadau, sydd wrth reswm yn mynd i ddenu rhieni a pherthnasau'r plant i fynychu..

Rydyn ni'n gweld y digwyddiadau yma fel cyfle gwych i hyrwyddo ein gwaith, ac i ledaenu ein bathodynnau Iaith Gwaith. Mae'r misoedd lle mae'r Eisteddfodau cenedlaethol yn disgyn yn gyson y misoedd rydyn ni'n derbyn y mwyaf o archebion ar gyfer nwyddau Iaith Gwaith. Rydym yn edrych ymlaen at y cyfle i ymgysylltu gyda chymunedau, busnesau ac elusennau Port Talbot a Wrecsam yn eisteddfodau eleni.

## 6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).

Yn y ddegawd ddiwethaf mae'r Eisteddfod Genedlaethol wedi bod yn llwyddiannus iawn yn denu torfeydd uchel iawn pan mae hi wedi ymweld ag ardaloedd lle mae dwysedd is o siaradwyr, fel Caerdydd a Rhondda Cynnon Taf. Yn wir, pan oedd maes yr Eisteddfod Genedlaethol yn rhad ac am ddim i ymwelwyr yng Nghaerdydd yn 2018, fe ymwelodd torfeydd uchaf erioed â'r ŵyl, gydag amcangyfrifon yn barnu bod dros hanner miliwn wedi ymweld dros yr wythnos. Mae hynny dros dair gwaith y cyfartaledd sy'n mynychu'r Eisteddfod Genedlaethol mewn blwyddyn gyfartalog. Roedd Eisteddfod yr Urdd yn Sir

Dinbych yn 2022 hefyd am ddim ac wedi denu torf o 118,000, sy'n rhyw 30,000 yn fwy na'r arfer. Mae'n rhesymol i gasglu bod cyrhaeddiad yr Eisteddfodau am ddim wedi bod yn llwyddiannus yn denu pobl newydd i'r Eisteddfod.

Wrth gwrs, mae ariannu'r Eisteddfod Genedlaethol i fod yn rhad ac am ddim i'w fynychu yn gostus i'r pwrs cyhoeddus. Ond os ydym o ddifri am gynyddu'r nifer o bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd, yna mae'n bolisi sy'n werth ei hystyried yn fwy rheolaidd.

Byddem yn annog trefnwyr digwyddiadau diwylliannol i ystyried beth yw'r gwaddol mae nhw eisiau ei gyflawni yn yr hir dymor, ystyried pwy yw'r grwpiau mae nhw eisiau eu targedu i fynychu o'r dechrau un, a sut i fesur eu llwyddiant. Gallai ystyried y cwestiynau yma wrth gynllunio alluogi gwaith cyfathrebu ac hyrwyddo wedi ei dargedu yn fwy manwl a phwrpasol, a gallai hynny fod yn ffordd effeithiol o ddenu cynulleidfaoedd newydd. Dylai unrhyw ddata sy'n cael ei gasglu am ddigwyddiadau fwydo mewn i'r gwaith o werthuso llwyddiant y digwyddiadau i ddenu cynulleidfaoedd newydd, ac i hysbysu'r gwaith cynllunio ar gyfer unrhyw ddigwyddiadau tebyg yn y dyfodol.

## 7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?

(Byddem yn ddiolchgar pe gallech gadw eich ateb i tua 500 o eiriau).